Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Owen Evans |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |



| | |
|---|---|
| **Dyddiad / Date:** | 04.01.23 |
| **Pwnc / Subject:** | **Y Cwricwlwm i Gymru – Rhoi eglurder ynghylch Maes y Dyniaethau mewn perthynas â hanes Cymru a'r byd** |

**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae rydym yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Ein prif nod yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil 2022 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i ni ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae ein cylch gwaith yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion pob oed, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, a hyfforddiant cychwynnol athrawon.

Gallwn roi cyngor i'r Senedd Cymru ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, rydym wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

**Cyflwyniad**

At ei gilydd, rydym yn croesawu'r cyfeiriad eglur at hanes Cymru a'r byd. Rydym yn teimlo y bydd hyn yn gwneud ychwanegiad cadarnhaol at y canllawiau presennol oherwydd:

- Mae'n rhoi mwy o eglurder i ysgolion a lleoliadau o fewn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig a chanllawiau cysylltiedig am yr angen i addysgu hanes Cymru.
- Mae'n sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael profiadau sy'n cynnwys hanes Cymru fel gwlad.

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad at 'gael eu hamlygu'n gyson i stori eu hardal leol a stori Cymru'. Credwn fod hyn yn gwneud yn glir y disgwyliad fod ysgolion yn cynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destunau lleol a Chymreig a chreu cysylltiadau â straeon y byd ehangach.

Credwn y byddai llinell amser drosfwaol o hanes Cymru yn cael ei chroesawu gan ysgolion fel adnodd i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o ysgolion y gwnaeth Estyn arolwg ohonynt wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer ein hadroddiad thematig ar addysgu hanes Cymru at ddiffyg adnoddau addas ar gyfer addysgu hanes lleol a hanes Cymru.

Lle bo modd, credwn y dylai adnoddau fod yn destun proses adolygu gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon o leoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod adnoddau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd, a'u hystyried gan ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg ac ysgolion dwyieithog. Dylid ystyried sut mae unrhyw linell amser yn cyfeirio at bob ardal o Gymru ac amrywiaeth ei chymunedau dros gyfnod. Dylid amlygu cyfleoedd i greu cysylltiadau ag ardaloedd eraill o Gymru a'r byd ehangach.

Credwn fod y diwygiadau i Feysydd y Dyniaethau yn cynnig cyfle i ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o'r Gymraeg a'i rôl yn hunaniaeth, diwylliant a hanes Cymru. Yn ychwanegol, credwn y gallai'r diwygiadau arfaethedig annog gwasanaethau gwella ysgolion i ddarparu adnoddau dysgu proffesiynol a rhanbarthol i gefnogi datblygiad hanes lleol a hanes Cymru.

Gellir cefnogi athrawon heb unrhyw fedrau Cymraeg, medrau mynediad a sylfaen trwy ddysgu proffesiynol a datblygu adnoddau i gyflwyno mwy o Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth. Dylai cymorth gynnwys sut i ynganu geiriau ac ymadroddion allweddol i fagu hyder wrth addysgu disgyblion am Gymru a'i hanes.

Ystyriaethau eraill:

- Mae diffyg gwaith pontio ar gyfer y Dyniaethau dros gyfnod yn golygu nad oes gan athrawon mewn ysgolion uwchradd lawer o wybodaeth am yr hyn y mae disgyblion wedi'i ddysgu am eu hardal a Chymru. Mae hyn yn arwain at ailadrodd wrth ddewis ac addysgu themâu. O ganlyniad, nid yw cynllunio ar gyfer cynnydd yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes lleol a hanes Cymru yn aml yn cael eu hystyried yn ddigon da.
- Mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn canolbwyntio'n drwm ar baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau TGAU. Yn aml, mae'r ysgolion hyn yn dechrau addysgu testunau TGAU yn ystod cyfnod allweddol 3. Mewn ychydig o achosion, mae hyn yn cyfyngu ar faint o hanes lleol a hanes Cymru y mae disgyblion yn ei astudio.

| |
|---|
| Credwn mai risg allweddol wrth ddatblygu adnodd llinell amser ar gyfer hanes Cymru yw y bydd ysgolion yn canfod bod unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u cynnwys ar y llinell amser yn agweddau gorfodol ar hanes Cymru i'w cynnwys yn eu cwricwlwm. Ar un llaw, gallai hyn helpu sicrhau gwaelodlin i annog a datblygu darpariaeth ar gyfer hanes Cymru ar draws pob ysgol. Fodd bynnag, gallai ysgolion ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y llinell amser o ganlyniad i hyn a pheidio ag ystyried eu cyd-destun lleol yn ddigon da. |

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

**Math o ymatebwr** (dewiswch un o'r canlynol)

| | | | |
|---|---|---|---|
| Plentyn neu berson ifanc | ☐ | Cyflogwr / cynrychiolydd busnes | ☐ |
| Rhiant / gofalwr | ☐ | Corff proffesiynol / grŵp â buddiant | ☐ |
| Llywodraethwr ysgol neu aelod o bwyllgor rheoli ysgol | ☐ | Sector gwirfoddol (grŵp cymunedol, gwirfoddolwr, grŵp hunangymorth, menter gymdeithasol neu gydweithredol, sefydliad crefyddol neu sefydliad nid er elw) | ☐ |
| Ymarferwr ysgol brif ffrwd (pennaeth, cynorthwyydd addysgu) | ☐ | Consortiwm rhanbarthol | ☐ |
| Darparwr addysg heblaw yn yr ysgol (staff UCD, staff ysgol annibynnol, darparwr arall) | ☐ | Awdurdod lleol | ☐ |
| Addysg uwch (gan gynnwys prifysgolion / sefydliadau academaidd) | ☐ | Addysg bellach | ☐ |
| Gwleidydd (Aelod o'r Senedd, cynghorydd sir, AS) | ☐ | Grŵp ymatebwyr arall na restrir uchod | ✓ |
| Lobïwr | ☐ | Mae'n well gen i beidio â dweud | ☐ |

Ydych chi'n ymateb fel unigolyn neu ar ran ysgol, lleoliad neu sefydliad?

| | |
|---|---|
| ☐ | Fel unigolyn |
| ✓ | Ar ran ysgol / lleoliad / sefydliad |

**Cwestiwn 1** – A yw ychwanegu 'hanes Cymru a'r byd' yn rhoi eglurhad gwell am bwysigrwydd addysgu hanes Cymru fel rhan o addysgu treftadaeth yn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig a chanllawiau cysylltiedig?

| Ydy | ✓ | Nac ydy | ☐ | Ddim yn siŵr | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

Rydym yn croesawu'r cyfeiriad eglur at hanes Cymru a'r byd. Credwn fod hyn yn rhoi mwy o eglurder i ysgolion a lleoliadau o fewn y datganiad o'r hyn sy'n bwysig a chanllawiau cysylltiedig ynglŷn â'r angen i addysgu hanes Cymru. Credwn fod y cyfeiriad at 'hanes Cymru a'r byd' yn gam cadarnhaol at annog athrawon i gynllunio cyfleoedd i greu cysylltiadau ystyrlon rhwng hanes eu hardal, Cymru a'r byd ehangach. Dylai unrhyw ddeunyddiau pellach i amlinellu ac esbonio'r newidiadau a wnaed i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig a chanllawiau cysylltiedig barhau i wneud hyn yn eglur. Bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ystyried dulliau o roi cyhoeddusrwydd i'r newidiadau hyn yn eang. Yn ychwanegol, dylid darparu dysgu proffesiynol o ansawdd uchel i ymarferwyr i'w helpu i ddeall y goblygiadau ar gyfer eu cynllunio a'u haddysgu.

Ym mis Hydref 2021, cyhoeddom ein hadroddiad ar 'Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' [1]. Mae'r adroddiad yn datgan, *'Ym mwyafrif yr ysgolion, nid oes gan ddisgyblion lawer o wybodaeth am y digwyddiadau hanesyddol sydd wedi ffurfio eu hardal leol, ac ni allant enwi llawer o Gymry arwyddocaol o hanes. Nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng unigolion a digwyddiadau yn hanes Cymru â hanes Prydain a'r byd, ac nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth o sut mae cysyniadau hanesyddol allweddol yn berthnasol i gyd-destunau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. O ganlyniad, nid ydynt yn datblygu dealltwriaeth gysyniadol gynyddol a chydlynol o hanes Cymru. Yn aml, mae hyn oherwydd nad yw cyfleoedd i astudio hanes lleol a chenedlaethol yn cael eu cynllunio'n strategol*.'

Ers i ni ailafael mewn gweithgarwch arolygu yn dilyn pandemig Covid-19, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn debyg, yn enwedig o ran addysgu hanes Cymru mewn ysgolion uwchradd. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, mae gwersi'n parhau i gynnig cyfeiriadau brysiog yn unig at hanes lleol a hanes Cymru. Mae athrawon yn cynllunio gwersi untro ar hanes lleol a hanes Cymru sydd yn aml ddim yn creu cysylltiadau digonol ar draws cyfnodau hanesyddol nac â'r byd ehangach. Yn rhy aml, mae athrawon yn gwneud cyfeiriadau bras iawn at Gymru wrth edrych ar ddigwyddiadau hanesyddol. Er enghraifft, mae disgyblion yn treulio cryn dipyn o amser yn astudio testunau fel llong y Titanic yn suddo lle mae athrawon yn creu cysylltiadau arwynebol â hanes Cymru trwy gyfeirio at y Pumed Swyddog Harold Lowe o Abermaw. Felly, rydym yn croesawu'r cyfeiriad penodol at hanes Cymru yng nghanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru.

[1] 'Addysgu hanes Cymru gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig' Estyn, Hydref 2021

| |
|---|
| Mewn llawer o ysgolion cynradd, mae athrawon yn ymgorffori agweddau ar hanes lleol a hanes Cymru yn eu cynllunio. Mewn ychydig o ysgolion lle mae'r cynllunio yn hynod effeithiol, mae staff yn defnyddio hanes Cymru a chyd-destun lleol yr ysgol, ble bynnag y bo modd, yn sbardun ar gyfer cynllunio testunau. Maent yn creu cysylltiadau rhwng hanesion lleol, cenedlaethol a rhyngwladol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion o'u lle yn y byd. Mewn ychydig o ysgolion, mae hanes Cymru yn parhau i fod yn elfen 'ychwanegol' at gynllunio'r cwricwlwm ac nid ystyrir bod hyn yn rhan annatod o gynllunio'r ysgol. |

**Cwestiwn 2** – Mae'r datganiadau o'r hyn sy'n bwysig yn elfennau allweddol o strwythurau'r cwricwlwm ar gyfer pob Maes Dysgu a Phrofiad (Maes). A yw'r bwriad i ychwanegu 'hanes Cymru a'r byd' at ddatganiad Maes y Dyniaethau yn glir a hygyrch, gan ddarparu dealltwriaeth o'r ehangder ar gyfer datblygu'r cwricwlwm?

| **Ydy** | ✓ | **Nac ydy** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

<table><tr><td>
Credwn fod datgan bod 'hanes Cymru a'r byd' yn glir a hygyrch gan ei fod yn caniatáu hyblygrwydd ar gyfer cynllunio'r cwricwlwm tra'n egluro'r angen i gynnwys hanes Cymru o fewn unrhyw gynnig cwricwlwm. Mae hyn yn ychwanegiad cadarnhaol gan ei fod yn sicrhau bod dysgwyr yng Nghymru yn cael profiadau sy'n cynnwys hanes Cymru fel gwlad tra'n creu cysylltiadau â hanes y byd ehangach. Bydd yn bwysig i unrhyw negeseuon am hyn fod yn glir. Dylai dysgu proffesiynol neu ohebiaeth helpu ysgolion i ddeall ei bod yn bwysig i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, Cymru a'r byd ehangach. Mewn ychydig o achosion, mae ymarferwyr yn canolbwyntio ar eu hardal nhw yn unig, sy'n cyfyngu ar wybodaeth, medrau a dealltwriaeth disgyblion.
Mae ein hadroddiad thematig ar addysgu hanes Cymru yn nodi 'mewn ychydig o ysgolion cynradd, mae gan ddisgyblion wybodaeth a dealltwriaeth drylwyr o hanes eu hardal leol a Chymru. Maent yn deall cyfraniad digwyddiadau ac unigolion lleol a Chymreig at hanes. Mewn ychydig iawn o ysgolion cynradd, mae disgyblion yn datblygu gwybodaeth am hanes eu hardal leol ac yn dechrau creu cysylltiadau rhwng eu hardal leol a hanes Cymru a'r byd ehangach. Yn yr ysgolion hyn, gall llawer o ddisgyblion esbonio sut mae unigolion a digwyddiadau wedi helpu i lunio'r gymuned maent yn byw ynddi heddiw'. Mewn llawer o ysgolion uwchradd, nid yw disgyblion yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn a chydlynol o hanes eu hardal leol na Chymru gyfan. Nid ydynt yn creu cysylltiadau rhwng unigolion a digwyddiadau yn hanes Cymru â hanes y byd ehangach. Credwn y dylai'r newidiadau i'r datganiad am Faes y Dyniaethau gyfeirio at sut y dylai cynllunio'r cwricwlwm yn y Dyniaethau alluogi disgyblion i greu cysylltiadau. Hefyd, rydym yn croesawu'r cyfeiriadau at hanes amrywiol, treftadaeth ddiwylliannol, amrywiaeth ethnig, hunaniaethau, profiadau a safbwyntiau eu hardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Credwn fod angen dysgu proffesiynol ac adnoddau o ansawdd uchel i gynorthwyo ymarferwyr i ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o hanes Cymru yng nghyd-destun y byd ehangach. Mae cymorth sy'n benodol i bwnc ar gyfer y Dyniaethau yn allweddol i ddatblygu'r agwedd hon.
</td></tr></table>

| |
|---|
| Hoffem dynnu sylw at ddefnydd o’r ymadrodd ‘dealltwriaeth ar y cyd’. Credwn y gallai hyn atgyfnerthu’r syniad fod unrhyw adnodd / llinell amser a gynhyrchir i gefnogi maes dysgu a phrofiad y Dyniaethau yn cynnwys elfennau gorfodol. Gweler sylwadau’n ymwneud â Chwestiwn 4. |

**Cwestiwn 3** – Mae’r datganiadau o’r hyn sy’n bwysig wedi cael eu mireinio ar ôl ystyried materion fel rhan o basio deddfwriaeth gysylltiedig gan y Senedd yn 2021. A yw’r newidiadau arfaethedig i Faes y Dyniaethau yn rhoi digon o eglurder a chymorth i ysgolion a lleoliadau wrth iddynt gynllunio eu cwricwlwm?

| **Ydyn** | ✓ | **Nac ydyn** | ☐ | **Ddim yn siŵr** | ☐ |
|---|---|---|---|---|---|

**Sylwadau ategol**

| |
|---|
| Credwn fod y datganiad o’r hyn sy’n bwysig yn glir ac yn rhoi manylion a fydd yn cynorthwyo ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm. Rydym yn croesawu’r cyfeiriad at ‘glywed straeon eu hardal leol a straeon Cymru yn gyson’. Credwn fod hyn yn gwneud y disgwyliad yn glir y dylai ysgolion gynllunio cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ddatblygu dealltwriaeth o gyd-destunau lleol a Chymreig, a chreu cysylltiadau â straeon y byd ehangach. Credwn hefyd fod hyn yn cefnogi’r cysyniad o gynllunio ar gyfer cynnydd o fewn y Dyniaethau.<br><br>Mae ein hadolygiad thematig ar addysgu hanes Cymru, gan gynnwys hanes, hunaniaeth a diwylliant Pobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn nodi bod diffyg gwaith pontio ar gyfer hanes yn gyffredinol. Dim ond mewn ychydig iawn o achosion y mae ysgolion cynradd clwstwr yn cydweithio â’u hysgol uwchradd i gytuno ar yr hyn sy’n cael ei addysgu. Credwn fod hyn yn ystyriaeth allweddol wrth ddatblygu canllawiau i gynorthwyo ysgolion i gynllunio ar gyfer sicrhau bod disgyblion yn cael eu hamlygu’n gyson at straeon yr ardal a straeon Cymru. Mae diffyg gwaith pontio ar gyfer y Dyniaethau yn golygu bod gan athrawon mewn ysgolion uwchradd ychydig iawn o wybodaeth am yr hyn y mae disgyblion wedi’i ddysgu am eu hardal ac am Gymru. Mae hyn yn arwain at ailadrodd wrth ddewis testunau. O ganlyniad, ni roddir ystyriaeth ddigon da i gynllunio ar gyfer cynnydd yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion o hanes lleol a hanes Cymru. Yn ychwanegol, mae lleiafrif o ysgolion uwchradd yn canolbwyntio’n drwm ar baratoi disgyblion ar gyfer arholiadau TGAU. Yn aml, mae’r ysgolion hyn yn dechrau addysgu testunau TGAU yn ystod cyfnod allweddol 3. Mewn ychydig o achosion, mae hyn yn cyfyngu ar faint o hanes lleol a hanes Cymru mae disgyblion yn ei astudio. Mae sicrhau bod disgyblion yn clywed yn gyson am gyd-destunau lleol a Chymreig yn ystyriaeth allweddol ar gyfer datblygu cymwysterau newydd o fewn y Dyniaethau.<br><br>Rydym yn croesawu ychwanegu ‘fel rhan o hanes Cymru’ at baragraff 4 yng nghyflwyniad y Dyniaethau i gryfhau’r ffocws ar hanes Cymru. Credwn fod y newidiadau i’r datganiad yn helpu egluro rhai camdybiaethau ynghylch ‘cynefin’. Mewn ychydig o ysgolion, dywedir bod hyn yn rheswm pam nad ydynt yn creu cysylltiadau â chyd-destunau ehangach ac amrywiol. Yn ychwanegol, mewn ysgolion cynradd lle na ddefnyddir llais y disgybl yn ddigon effeithiol, mae athrawon yn caniatáu i ddisgyblion ddewis testunau heb ystyried sut |

gallant greu cysylltiadau â'r ardal leol, Cymru a'r byd ehangach. Mae cynnwys 'hanes Cymru a'r byd' yn helpu lliniaru hyn.

**Cwestiwn 4 –** I gynorthwyo ysgolion i ymgymryd â'r newidiadau arfaethedig i'r datganiad o'r hyn sy'n bwysig a'r canllawiau cysylltiedig, byddwn hefyd yn comisiynu datblygiad llinell amser drosfwaol o hanes Cymru. Sut gallai llinell amser o'r fath ac unrhyw adnoddau ategol eraill gynorthwyo ysgolion i ymgymryd â'r gofynion gorfodol arfaethedig a amlygwyd yn yr ymgynghoriad hwn?

**Sylwadau ategol**

Credwn y byddai llinell amser drosfwaol o hanes Cymru yn cael ei chroesawu gan ysgolion fel adnodd i gefnogi cynllunio'r cwricwlwm. Cyfeiriodd y rhan fwyaf o ysgolion y gwnaeth Estyn arolwg ohonynt wrth gasglu tystiolaeth ar gyfer ein hadroddiad thematig ar addysgu hanes Cymru at ddiffyg adnoddau addas ar gyfer addysgu hanes lleol a hanes Cymru. Mewn llawer o ysgolion, mae athrawon yn parhau i gael mynediad cyfyngedig at ddysgu proffesiynol ar gyfer hanes lleol a hanes Cymru. Dywedodd ysgolion fod awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol yn cynnig ychydig iawn o ddysgu proffesiynol arbenigol a chyfleoedd i athrawon rannu arferion ar y meysydd penodol hyn. Mae athrawon yn aml yn sôn am anawsterau ynglŷn â dod o hyd i ddeunydd ffynhonnell hanesyddol addas wrth gynllunio profiadau dysgu dilys ac ystyrlon, yn enwedig ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3. Yn benodol, byddai dysgu proffesiynol ac adnoddau i gynorthwyo athrawon i gael mynediad at ddeunyddiau ffynonellau dilys a'u defnyddio yn cael ei groesawu. Mae hyn yn cynnwys dysgu proffesiynol er mwyn gallu addasu deunydd ffynhonnell i gefnogi medrau llythrennedd disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Er enghraifft, datblygu medrau trawsieithu disgyblion yng nghyd-destun adnoddau hanesyddol ac addasu ffynonellau i sicrhau darllenadwyedd tra'n gwarchod eu dilysrwydd. Byddai hyn yn hynod werthfawr ar gyfer athrawon nad ydynt yn arbenigwyr yn y Dyniaethau i sicrhau bod medrau sy'n benodol i bwnc yn cael eu haddysgu'n effeithiol mewn hanes ac yn y Dyniaethau.

Credwn mai risg allweddol wrth ddatblygu adnodd llinell amser ar gyfer hanes Cymru yw y bydd ysgolion yn canfod bod unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u cynnwys ar y llinell amser yn agweddau gorfodol ar hanes Cymru i'w cynnwys yn eu cwricwlwm. Gallai hyn helpu datblygu darpariaeth fwy cyson ar gyfer hanes Cymru ar draws pob ysgol. Fodd bynnag, mae risg y bydd hyn yn achosi i ysgolion ganolbwyntio ar y llinell amser yn unig, a pheidio ag ystyried y cyd-destun lleol yn ddigon da. Yn ychwanegol, gallai arwain at ailadrodd testunau fel y nodwyd yn ein hateb i Gwestiwn 3. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau clir ynglŷn â'r materion hyn i liniaru risgiau, gan gynnwys priodoldeb testunau ar gyfer disgyblion o wahanol oedrannau a'r angen i gynllunio ar gyfer cynnydd mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Dylid ailedrych ar yr agwedd hon yn rheolaidd i osgoi unrhyw gamdybiaethau sy'n dod i'r amlwg.

Credwn y dylai adnoddau fod yn destun proses adolygu gydag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys athrawon o leoliadau ac ysgolion ledled Cymru. Dylid rhoi sylw arbennig i sicrhau bod adnoddau Cymraeg a Saesneg yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd ac yn cael eu hystyried gan ymarferwyr sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, cyfrwng Saesneg a dwyieithog. Dylid ystyried sut mae unrhyw linell amser yn cyfeirio at holl

ardaloedd Cymru ac amrywiaeth ei chymunedau dros gyfnod. Dylid amlygu cyfleoedd i greu cysylltiadau ag ardaloedd eraill o Gymru a'r byd ehangach.

**Cwestiwn 5** – Hoffem wybod beth yw eich barn ar yr effeithiau y byddai'r diwygiadau arfaethedig i Faes y Dyniaethau yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth ydych chi'n meddwl fyddai'r effeithiau? Sut gellid cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

**Sylwadau ategol**

Credwn fod y diwygiadau i Feysydd y Dyniaethau yn rhoi cyfle i ddatblygu dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gwell o'r Gymraeg a'i rôl yn hunaniaeth, diwylliant a hanes Cymru. Credwn fod datblygu adnoddau, gan gynnwys y llinell amser, yn darparu cyfleoedd i gynnwys digwyddiadau hanesyddol allweddol yn ymwneud â hanes y Gymraeg. Dylai hyn roi cyfle i ddisgyblion ddeall pwysigrwydd ac arwyddocâd yr iaith a datblygiad Cymru fel cenedl ddwyieithog ac amlieithog yn well.

Credwn fod yr adnoddau arfaethedig yn rhoi cyfle i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, er enghraifft trwy gyflwyno geiriau ac ymadroddion Cymraeg mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg a dwyieithog, fel Cofiwch Dryweryn, Llywelyn ein Llyw Olaf.

Yn ychwanegol, credwn y gallai'r diwygiadau arfaethedig annog awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ddarparu dysgu proffesiynol ac adnoddau rhanbarthol i gefnogi datblygiad hanes lleol a hanes Cymru. Dylid hyrwyddo cymorth ar gyfer y maes dysgu a phrofiad ac agweddau sy'n benodol i bwnc ar gynllunio'r cwricwlwm. Bydd hyn yn hyrwyddo ymwybyddiaeth athrawon o hanes lleol a hanes Cymru, gan gynnwys hanes y Gymraeg ledled Cymru. Dylid cefnogi athrawon heb unrhyw fedrau Cymraeg, medrau mynediad a sylfaen trwy ddysgu proffesiynol a datblygu adnoddau i gyflwyno mwy o Gymraeg mewn ystafelloedd dosbarth. Dylai cymorth gynnwys sut i ynganu geiriau ac ymadroddion allweddol wrth addysgu disgyblion am Gymru a'i hanes.

**Cwestiwn 6** – Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid ffurfio neu newid y diwygiadau arfaethedig i Faes y Dyniaethau er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu effeithiau cadarnhaol cynyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

**Sylwadau ategol**

Gweler ein hymateb i Gwestiwn 5.

**Cwestiwn 7** – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig sydd heb gael eu trafod yn benodol, defnyddiwch y blwch isod i'w nodi:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os byddai’n well gennych i’ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma: ☐